HM Courts &
Tribunals Service

**Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r ffurflen gwrandawiadau pledio a pharatoi ar gyfer treial (fersiwn PTPH2-DCS) i'w defnyddio o'r 22ain o Orffennaf 2019 ymlaen ar gyfer gwrandawiadau PTPH o'r 29ain Orffennaf 2019 ymlaen**

1. **Hwylusach trefn**
   - Erbyn hyn mae yna fotwm PTPH ar y ddewislen lwyd er mwyn hwyluso mynediad at y ffurflen PTPH ar-lein
   - Mae'r panel llwyd ar yr ochr sy'n caniatáu i ddefnyddwyr symud yn rhwydd rhwng adrannau yn hytrach na sgrolio i fyny neu i lawr wedi cael ei symleiddio fel bod pob un o'r adrannau yn hawdd i'w gweld.

2. **Newidiadau i wybodaeth a ddarparwyd gan yr erlyniad**
   - Mae blwch Dyddiad Anfon wedi'i ychwanegu at dabl manylion y diffynnydd i'w gwblhau gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
   - Ychwanegwyd cwestiwn ychwanegol at yr Wybodaeth gan yr Erlyniad ar gyfer y PTPH: 'A ddarparwyd Dogfen Reoli Dadlennu?'
   - Mae'r tabl '**Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys**' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen; mae angen i'r erlyniad lenwi rhannau o'r tabl. Pan fo cyfryngwr yn bresennol mewn PTPH, naill ai ar gyfer y tyst neu'r diffynnydd, dylid cynnwys manylion yn yr adran islaw'r tabl tystion fel y gellir ystyried argaeledd y cyfryngwr wrth bennu dyddiad y treial.
   - Mae Ciw Gweledol (⚠) yn amlygu atebion sy'n peri pryder i'r barnwr, fel y gall ef neu hi nodi'r ymatebion hynny sy'n gofyn am sylw ar yr olwg gyntaf.

3. **Newidiadau i wybodaeth a ddarperir gan yr amddiffyniad**
   - Mae rhagor o gwestiynau i'r amddiffyniad. Mae'r rhain yn gofyn i'r amddiffyniad nodi'r diffynyddion hynny sy'n ifanc, yn agored i niwed neu'n ddioddefwr caethwasiaeth fodern fel y gellir gwneud gorchmynion neu ymchwiliadau priodol yn y PTPH.
   - Mae'r ffurflen hefyd yn gwneud darpariaeth i'r amddiffyniad nodi a yw'r DMD a gyflwynwyd yn ddigonol ac os nac ydy, egluro pam mai felly y mae, a hefyd i nodi llwybrau holi rhesymol ac i nodi'r hyn y maent yn ei ddweud yw'r "lefel briodol yr wybodaeth y dylid ei thynnu" briodol o ddyfeisiau symudol a chyfrifiaduron.
   - Mae'r tabl '**Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu'r llys**' wedi cael ei symud i'r adran farnwrol ar y ffurflen; mae angen i'r erlyniad lenwi rhannau o'r tabl. Pan fo cyfryngwr yn bresennol mewn PTPH, naill ai ar gyfer tyst neu'r diffynnydd, dylid cynnwys manylion yn yr adran islaw'r tabl tystion fel y gellir ystyried argaeledd y cyfryngwr wrth bennu dyddiad y treial.
   - Os yw diffynnydd o dan 18 oed neu'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill, dylai'r amddiffyniad ystyried pa orchmynion y dylid eu gwneud yn y PTPH a mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio'r adran ar gyfer diffynyddion ifanc/bregus/dan fygythiad.
   - Mae Ciw Gweledol (⚠) yn amlygu atebion sy'n peri pryder i'r barnwr, fel y gall ef neu hi nodi'r ymatebion hynny sy'n gofyn am sylw ar yr olwg gyntaf.

4. **Un tabl ‘Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu’r llys’**
    - Erbyn hyn mae un tabl ‘Tystion dros yr erlyniad y mae gofyn iddynt fynychu’r llys’ sydd i’w weld yn gynnar yn adran y gorchmynion barnwrol, ond y dylai pob parti gyfrannu ato.
    - Mae darpariaeth ar gael i gofnodi gwybodaeth ynghylch cyfryngwyr hysbys yn ystod y PTPH.

5. **Adrannau na ellir eu hehangu dim ond pan fydd angen**
    - Dim ond mewn rhai achosion y bydd angen rhai rhannau o'r adran gorchmynion barnwrol. Pan fydd angen, gellir ehangu'r adrannau hyn gan ddefnyddio'r botymau ehangu gwyrdd, neu eu dileu gan ddefnyddio’r botymau coch. 
    - Mae hyn yn caniatáu i'r ffurflen PTPH gael ei haddasu’n well i adlewyrchu cymhlethdod yr achos; ffurflen PTPH sylfaenol mewn achosion mwy syml, gyda ffurflen hirach mewn achosion mwy cymhleth.
    - Pan roddir y ffurflen PTPH ym mwndel yr achos ar ffurf PDF, bydd unrhyw adrannau yn y blwch "wedi eu dileu" yn cael eu hepgor o'r gorchymyn.
    - Bydd dileu adran yn arwain at ddileu unrhyw ddata sydd wedi'i gofnodi. Os bydd hyn yn digwydd, rhybuddir y defnyddiwr cyn caniatáu iddo fynd yn ei flaen.

6. **Cyfarwyddiadau nad ydynt yn berthnasol i'r achos**
    - Efallai na fydd rhai o'r cyfarwyddiadau o fewn y pedwar cam, ac mewn rhai lleoedd eraill, yn berthnasol i'r achos.
    - Mae gan bob cyfarwyddyd o'r fath flwch yn dweud "amherthnasol" i'r chwith ohono. Bydd rhoi tic yn y blwch hwn yn cyfleu nad yw’r cyfarwyddyd yn berthnasol i’r achos.
    - Pan roddir y ffurflen PTPH ym mwndel yr achos ar ffurf PDF, bydd unrhyw gyfarwyddiadau sydd wedi'u marcio fel rhai amherthnasol yn cael eu hepgor o'r gorchymyn.

7. **Cynnwys wedi'i ddiweddaru**
    - Mynegir rhai cyfarwyddiadau barnwrol yn wahanol o ganlyniad i newidiadau cyfreithiol neu weithdrefnol a weithredwyd ers cyflwyno'r ffurflen PTPH gwreiddiol.
    - Mae’r adrannau lle mae gorchmynion ar gyfer achosion adran 28 wedi cael eu diwygio. Erbyn hyn, ceir adrannau ar wahân ar gyfer tystion sy’n agored i niwed a thystion sydd dan fygythiad.
    - Ceir adran newydd hefyd lle y gall y llys wneud gorchmynion priodol ar gyfer diffynyddion ifanc neu rai sy'n agored i niwed.

8. **Cwblhau dyddiadau'r camau yn awtomatig**
    - Mae blwch Dyddiad Anfon wedi'i ychwanegu at y tabl 'manylion y diffynnydd'. Ar y cyd â'r statws remand, mae hyn yn caniatáu cyfrifo'r dyddiadau ar gyfer cam 1 a 2 yn awtomatig. Efallai y bydd y barnwr yn dewis newid y rhain.
    - Os oes gan achos fwy nag un diffynnydd, cyfrifir dyddiadau'r camau ar gyfer pob un, gan roi sylw i wahanol gyfuniadau o statws remand a dyddiad anfon. Yna, defnyddir yr amser cynharaf. Caiff penwythnosau a gwyliau cyhoeddus eu cynnwys yng nghyfrifiadau’r stage date.

9. **Calendr deufis**
    - Pan fydd blwch dyddiad yn agor, bydd y calendr yn dangos dau fis wedi’u gosod y naill uwchben y llall, sy’n hwyluso cyfrifo 14 neu 28 diwrnod.

10. **Newidiadau o ran dyluniad**
    - Mae'r codau lliw bellach yn gyson â'r ffurflen bapur a gall partïon weld yn glir yr adrannau hynny y mae angen iddynt eu llenwi.
    - Yr Erlyniad - Glas
    - Yr Amddiffyniad - Gwyrdd
    - Barnwyr - Pinc

- Mae modd ehangu pob blwch ar y ffurflen.
- Mae'r ffurflen PDF a roddir ym mwndel yr achos wedi'i hailddylunio i fod yn haws ei defnyddio.

**11. Newidiadau PDF/Botwm Cyhoeddi**

- Mae’r botymau wedi cael eu newid i ‘Arbed’ a ‘Arbed a Chyhoeddi’
- Dylai’r amddiffyniad ddefnyddio’r botwm **arbed** ar frig y ffurflen ar ôl iddynt orffen golygu’r ffurflen. Nid fydd y botwm ‘arbed a chyhoeddi’ ar gael iddynt hwy.
- Dim ond barnwyr fydd yn gallu defnyddio'r botwm **arbed a chyhoeddi** ar frig y ffurflen pan fyddant wedi gorffen golygu yn y gwrandawiad PTPH

**12. Rhagor o wybodaeth**

- Dylai defnyddwyr gyfeirio at y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol a'r Better Case Management Handbook 2018 am ragor o wybodaeth am y ffurflen PTPH.

10 Gorffennaf 2019